

<b>Llinyn</b>	<b>Dinasyddiaeth – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwrpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddant yn barod am yr agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddant yn datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddynt ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol.</b>		
<b>Dinasyddiaeth</b>	<b>Elfen</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>
	<b>Hunaniaeth, delwedd ac enw da</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu enw da o ran rhagolygon cyflogaeth, e.e. <i>defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol</i></li> <li>• deall y ffyrdd y mae gwefannau a chwmnïau'n casglu data ar-lein ac yn defnyddio'r data hynny i bersonoli cynnwys i'w defnyddwyr, e.e. <i>rhannu data personol</i></li> <li>• adnabod y risgiau a'r defnydd o ddata/gwasanaethau ar ddyfeisiau personol o fewn telerau ac amodau ystod o feddalwedd a gwasanaethau gwe</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• esbonio materion moesegol amgryptio corfforaethol, e.e. <i>cynnwys system osgoi</i></li> <li>• adnabod a disgrifio polisiau diogelu data amrywiaeth o sefydliadau o wahanol wledydd a sut y mae hyn yn effeithio ar eu ffordd o weithio</li> <li>• adnabod sut y mae sefydliadau yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau data wrth ddefnyddio cynhyrchion amlwladol</li> </ul>
	<b>Iechyd a lles</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• meddwl yn feirniadol am wahanol ddibenion a chyd-destunau golygu delweddau digidol, e.e. <i>archwilio manteision a phwyntiau negyddol trin ffotograffau; gwerthuso ffotograffau sydd wedi'u golygu'n ddigidol o ran eu cyd-destun a'u diben</i></li> <li>• cymryd camau rhesymol i osgoi problemau iechyd (corfforol a meddyliol), a achosir gan ddefnyddio technoleg ddigidol</li> <li>• deall y cyfrifoldebau cyfreithiol o ran cael gwared ar dechnoleg a'r effaith amgylcheddol sydd ynghlwm wrth hynny</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• meddwl yn feirniadol am y gwahanol ddibenion a chyd-destunau sydd ynghlwm wrth olygu delwedd ddigidol</li> <li>• cymryd camau rhesymol i osgoi problemau iechyd a achosir gan ddefnyddio technoleg ac awgrymu strategaethau i'w hatal neu leihau (corfforol a seicolegol)</li> <li>• esbonio sut i gael mynediad at gymorth gan bobl broffesiynol a sefydliadau</li> <li>• deall y cyfrifoldebau cyfreithiol o ran cael gwared ar dechnoleg a'r effaith amgylcheddol sydd ynghlwm wrth hynny</li> </ul>
	<b>Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• pennu'r pwyntiau allweddol sydd eu hangen i ddefnydd o waith creadigol fod yn ddefnydd teg ac i gydymffurfio gyda deddfau diogelu data, e.e. <i>archwilio'r ystyriaethau cyfreithiol a moesegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio gwaith creadigol pobl eraill; deall hawliau a chyfrifoldebau unigolion fel crëwyr a defnyddwyr cynnwys; meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau moesegol am y defnydd o waith creadigol o ran a yw'n ddefnydd teg; cyfeirio drwy ddefnyddio systemau cyfeirnoddi ffurfiol, megis system Harvard a system Rhydychen</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• deall y gwahaniaethau rhwng cael ysbrydoliaeth o waith creadigol pobl eraill a meddiannu'r gwaith heb ganiatâd, e.e. <i>gwerthfawrogi cysyniadau allweddol ysbrydoliaeth, meddiannaeth, hawlfraint, a defnydd teg, ac archwilio sut y maent yn gymwys i waith creadigol; deall y dadleuon cyfreithiol a moesegol ynghylch defnyddio gwaith creadigol pobl eraill; ystyried safbwynt y crëwr gwreiddiol, cynulleidfaoedd posibl a'r gymuned ehangach wrth ddefnyddio deunyddiau sy'n berchen i eraill</i></li> </ul>
	<b>Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithredu strategaethau priodol i ddiogelu hawliau, hunaniaeth, preifatrwydd a diogelwch emosiynol eu hunain ac eraill mewn cymunedau ar-lein, e.e. <i>gwerthuso ymddygiad ar-lein yn barhaus, gan ystyried canlyniadau gweithredoedd; gweithredu i leihau'r risg i ddiogelwch; ystyried safbwyntiau byd-eang a diwylliannol ac addasu ymddygiad yn unol â hynny.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithredu strategaethau priodol i ddiogelu eu hawliau, hunaniaeth, preifatrwydd a diogelwch emosiynol eu hunain ac eraill mewn cymunedau ar-lein, e.e. <i>gwerthuso ymddygiad ar-lein yn barhaus, gan ystyried canlyniadau gweithredoedd; gweithredu i leihau'r risg i ddiogelwch; ystyried safbwyntiau byd-eang a diwylliannol ac addasu ymddygiad yn unol â hynny.</i></li> </ul>
<b>Llinyn</b>	<b>Rhyngweithio a chydweithio – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus.</b>		
<b>Rhyngweithio a chydweithio</b>	<b>Cyfathrebu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gwneud defnydd o wahanol wasanaethau cyfathrebu sydd ar gael ar-lein at ddibenion penodol, gan gyfiawnhau'r dewisiadau a wneir yn seiliedig ar ba mor briodol ydynt i drosglwyddo'r wybodaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• myfyrio ar y dewis o ddatrysiadau cyfathrebu ar-lein a sôn am sut y gellir gwella hynny i gyflawni amcanion tasgau</li> </ul>
	<b>Cydweithio</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• myfyrio ar y dewis o ddatrysiadau cydweithio a sôn am sut y gellid gwella hyn i gyflawni amcanion tasgau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• myfyrio ar y dewis o ddatrysiadau cydweithio a sôn am sut y gellid gwella hyn i gyflawni amcanion tasgau</li> </ul>
	<b>Storio a rhannu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio gwasanaethau ar-lein i rannu cynnwys priodol gyda chynulleidfa fyd-eang, e.e. <i>lanlwytho cynnwys i wefannau cyhoeddus i rannu gyda chynulleidfaoedd penodol.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio gwasanaethau ar-lein i rannu cynnwys priodol gyda chynulleidfa fyd-eang, e.e. <i>lanlwytho cynnwys i wefannau cyhoeddus i rannu gyda chynulleidfaoedd penodol.</i></li> </ul>

<p><b>Llinyn</b></p>	<p>Cynhyrchu – Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses gylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath.</p> <p>Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol.</p>		
<p><b>Cynhyrchu</b></p>	<p><b>Elfen</b></p>	<p><b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b></p>	<p><b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b></p>
	<p><b>Cynllunio, cyrchu a chwilio</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cynllunio'n effeithiol, a hynny gyda phethau cynyddol gymhleth</li> <li>chwilio'n effeithlon am wybodaeth a gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth gan gyfiawnhau barn a rhesymau dros ddewisiadau; cyfeirnod gwaith gan ddefnyddio dulliau priodol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cynllunio'n effeithiol, a hynny gyda phethau cynyddol gymhleth</li> <li>ystyried manteision a chyfyngiadau dulliau a ffynonellau gwybodaeth digidol a'r canlyniadau y maent yn eu cynhyrchu ac yna defnyddio'r canlyniadau hyn fel sail i feirniadu ansawdd eu gwaith yn y dyfodol</li> <li>chwilio'n effeithlon am wybodaeth a gwerthuso dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth gan gyfiawnhau barn a rhesymau dros ddewisiadau; cyfeirnod gwaith gan ddefnyddio dulliau priodol</li> </ul>
	<p><b>Creu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio ystod o feddalwedd, offerynnau a thechnegau i greu canlyniad proffesiynol i brosiect, boed yn unigol neu ar y cyd, a hynny gan gynnwys ystod o gydrannau amlgyfrwng</li> <li>creu dogfennau testun ffurfiol ar gyfer cynulleidfa broffesiynol, gan gynnwys y defnydd o offerynnau adolygu ar y cyd yn y gweithgareddau</li> <li>defnyddio offerynnau mynegeio a chyfeirio i wella dogfennau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio ystod o feddalwedd, offerynnau a thechnegau i greu canlyniad proffesiynol i brosiect, boed yn unigol neu ar y cyd, a hynny gan gynnwys ystod o gydrannau amlgyfrwng</li> <li>creu dogfennau testun ffurfiol ar gyfer cynulleidfa broffesiynol, gan gynnwys defnyddio offerynnau adolygu ar y cyd yn y gweithgareddau</li> <li>defnyddio offerynnau mynegeio a chyfeirio i wella dogfennau</li> </ul>
	<p><b>Gwerthuso a gwella</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cyfiawnhau rhesymeg i gynulleidfaedd beirniadol o ran diwyg a chynnwys, e.e. <i>cynhyrchu adroddiad gwerthuso manwl, gan gynnwys cyfiawnhau diwyg a chynnwys</i></li> <li>cyfeirio at ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddir, yn y modd priodol</li> <li>gwneud newidiadau manwl a phenodol yn seiliedig ar adborth a hunanwerthuso, lle bo hynny'n berthnasol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cyfiawnhau rhesymeg i gynulleidfaedd beirniadol o ran diwyg a chynnwys</li> <li>cyfeirio at ffynonellau o wybodaeth a ddefnyddir, yn y modd priodol</li> <li>gwneud newidiadau manwl a phenodol yn seiliedig ar adborth a hunanwerthuso, lle bo hynny'n berthnasol.</li> </ul>
<p><b>Llinyn</b></p>	<p>Data a meddwl cyfrifiadurol – Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddynt yn gyntaf ddeall y broblem a'r dulliau o'i datrys.</p> <p>Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data; byddant yn archwilio agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi. Bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae data a gwybodaeth yn cysylltu i mewn i'n byd digidol, a bydd yn rhoi iddynt sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern, deinamig.</p>		
<p><b>Data a meddwl cyfrifiadurol</b></p>	<p><b>Datrys problemau a modelu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>yn annibynnol, creu a dylunio modelau ac esbonio sut y maent yn adlewyrchu problemau yn y byd go iawn, e.e. <i>dewis dull i gyfleu problem, megis siart llif neu daenlen, a'i ddefnyddio'n gywir</i></li> <li>dilyn a datblygu datrysiadau rhesymegol i bennu gweithredoedd ac allbwn rhaglen/proses, e.e. <i>dilyn ffug-god neu siart llif i sicrhau canlyniad, datblygu dilyniant ysgrifenedig o'r camau y gellid ei ddilyn</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>arddangos manteision defnyddio rhan o gyfarwyddiadau neu ddulliau (ffwythiannau/gweithdrefnau), neu gyfarwyddiadau neu ddulliau cyfan wrth ddatrys problem, e.e. <i>gwahanu adrannau o broblem a mynd yn ôl atynt pan fydd angen</i></li> </ul>
	<p><b>Llythrennedd gwybodaeth a data</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio data i egluro ac ychwanegu dilysrwydd i'r casgliad a lle bo'n bosibl addasu'r casgliad a'r/neu'r ddamcaniaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio rhaglenni priodol i gynhyrchu tystiolaeth ystadegol yn seiliedig ar eu data eu hunain a gasglwyd/y senario a nodwyd, a chyfiawnhau rhesymu.</li> </ul>